# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 20 Tachwedd 2017

Amser: 14.00 - 15.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4354

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Vikki Howells AC<br>Adam Price AC |
| Tystion: | Katie Dalton, Cymorth Cymru<br>Enid Roberts, Cartrefi Cymunedol Gwynedd<br>Stuart Ropke, Cartrefi Cymunedol Cymru<br>Katie Dalton, Cymorth Cymru<br>Rhian Stone, Cymorth Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Matthew Mortlock |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AC a Lee Waters AC. Ni chafwyd dirprwyon.

1.3 Talodd y Cadeirydd deyrnged i'r diweddar Carl Sargeant AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am eglurhad pellach gan Lywodraeth Cymru o'r gyllid yn ystod y flwyddyn ar gyfer byrddau iechyd a chanfyddiadau adolygiad Deloitte o faterion llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fel rhan o Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. O ran Cyflogau Uwch-reolwyr, nododd y Pwyllgor y byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn adrodd yn ôl ar ôl trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru.

### 2.1 Rheoli meddyginiaethau: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Gymru (30 Hydref 2017)

### 2.2 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru (6 Tachwedd 2017)

### 2.3 Cyflogau Uwch-reolwyr: Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru (8 Tachwedd 2017)

## 3 Y Rhaglen Cefnogi Pobl gan Lywodraeth Cymru: Sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Stuart Ropke, Prif Weithredwr, Cartrefi Cymunedol Cymru; Enid Roberts, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Cwsmeriaid a Chymunedau, Cartrefi Cymunedol Gwynedd; Katie Dalton, Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru a Rhian Stone, Cyfarwyddwr Gofal a Chymorth yn Grŵp POBL a Chadeirydd Cymorth Cymru fel rhan o'i ymchwiliad i'r Rhaglen Cefnogi Pobl gan Lywodraeth Cymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Y Rhaglen Cefnogi Pobl gan Lywodraeth Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid gyda'r pryderon a fynegwyd ynghylch y syniad arfaethedig o roi gorau i neilltuo cyllideb y Rhaglen Cefnogi Pobl a'r effaith y gallai hyn ei chael ar yr aelodau o'r gymdeithas sy'n agored i niwed.

5.2 Nododd yr Aelodau fod yr Archwilydd Cyffredinol yn rhagweld cyhoeddi adroddiad ar sut y mae llywodraeth leol yn rheoli'r galw am wasanaethau digartrefedd yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd y gellid ei ystyried fel rhan o'r ymchwiliad hwn.